**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 2938 (Cy.279)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 ("Rheoliadau 1999") er mwyn galluogi statws athro cymwysedig i gael ei ddyfarnu i athrawon penodol mewn ysgolion annibynnol neu athrawon addysg bellach penodol sy'n cael eu cyflogi mewn sefydliadau addysg bellach neu fel hyfforddwyr mewn ysgolion.

O dan y Rheoliadau diwygiedig, caniateir yn awr i athro gael ei gymeradwyo i gael statws athro cymwysedig os yw'n cael ei gyflogi ar hyn o bryd fel athro mewn ysgol annibynnol, os yw wedi'i asesu fel un sy'n bodloni'r safonau ar gyfer statws athro cymwysedig ac yn dal un o'r cymwysterau a bennir yn y Rheoliadau, ar yr amod ei fod wedi'i gyflogi fel athro mewn ysgol annibynnol cyn 1 Medi 1989. Yn fras, y cymwysterau penodedig yw graddau a chymwysterau eraill a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion dyfarnu statws athro cymwysedig a gafwyd cyn 1 Ionawr 1974 a graddau a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion dyfarnu statws athro cymwysedig a gafwyd cyn 1 Medi 1989. Gellir dyfarnu statws athro cymwysedig i athrawon o'r fath yn unol ag argymhelliad pennaeth neu benadur ysgol annibynnol lle maent yn cael eu cyflogi, neu yn achos pennaeth neu benadur ysgol annibynnol, yn unol ag argymhelliad cadeirydd corff llywodraethu'r ysgol, neu os nad oes un, perchennog yr ysgol - gweler rheoliadau 5 a 6 (sy'n mewnosod paragraffau 10 a 12-19 newydd yn Atodlen 3 i Reoliadau 1999).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 2938 (W.279)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) Regulations 1999 ("the 1999 Regulations") to enable certain teachers in independent schools or certain further education teachers employed at further education institutions or as instructors at schools, to be awarded qualified teacher status.

Under the amended Regulations, a teacher may now be recommended for qualified teacher status if he or she is currently employed as a teacher in an independent school, has been assessed as meeting the standards for qualified teacher status and holds one of the qualifications specified in the Regulations, provided he or she was employed as a teacher at an independent school before 1st September 1989. Broadly, the specified qualifications are degrees and other qualifications approved by the Secretary of State for the purpose of the award of qualified teacher status and obtained before 1st January 1974 and degrees approved by the Secretary of State for the purpose of the award of qualified teacher status and obtained before 1st September 1989. Qualified teacher status may be awarded to such teachers on the recommendation of the head teacher or principal of the independent school at which they are employed, or in the case of the head teacher or principal of an independent school, on the recommendation of the chairman of the school's governing body, or if none the school's proprietor - see regulations 5 and 6 (which insert new paragraphs 10 and 12-19 in Schedule 3 to the 1999 Regulations).

O dan y Rheoliadau diwygiedig caniateir yn awr i athrawon addysg bellach gael eu cymeradwyo i gael statws athro cymwysedig os yw amodau penodol yn cael eu bodloni. Yr amodau hynny yw bod yr athro yn cael ei gyflogi fel athro mewn sefydliad addysg bellach neu fel hyfforddwr mewn ysgol, ei fod wedi'i asesu fel un sy'n bodloni'r safonau penodedig, ei fod yn dal un o'r cymwysterau a bennir yn Rhan II o Atodlen 3 neu radd, ei fod wedi'i gyflogi fel athro mewn sefydliad addysg bellach cyn 1 Medi 1989, ei fod yn dal Tystysgrif mewn Addysg neu Dystysgrif Addysg i Raddedigion, a bod ganddo ddigon o brofiad addysgu ym marn y corff argymell i allu addysgu disgyblion 14-19 oed - gweler rheoliadau 5 a 6 (sy'n mewnosod paragraffau 11 a 12-19 newydd yn Atodlen 3 i Reoliadau 1999).

Under the amended Regulations further education teachers may now be recommended for qualified teacher status if certain conditions are satisfied. Those conditions are that the teacher is employed as a teacher in a further education institution or as an instructor in a school, has been assessed as meeting the specified standards, holds one of the qualifications specified in Part II of Schedule 3 or a degree, was employed as a teacher at a further education institution before 1st September 1989, holds a Certificate in Education or a Post-Graduate Certificate in Education, and in the opinion of the recommending body has sufficient teaching experience to be able to teach pupils aged 14-19 years - see regulations 5 and 6 (inserting new paragraphs 11 and 12-19 in Schedule 3 to the 1999 Regulations).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 2938 (Cy.279)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002

*Wedi'u gwneud* *27 Tachwedd 2002*

*Yn dod i rym* *17 Rhagfyr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 218(1)(a) a (2) a 232(5) a (6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**b**).

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 17 Rhagfyr 2002.

**Diwygio'r Rheoliadau**

**2.** Diwygir Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(**c**) fel a ganlyn.

**3**. Yn rheoliad 3(2) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosodir y diffiniad canlynol:

> "mae i "corff llywodraethu" mewn perthynas â sefydliad addysg bellach yr un ystyr â "*governing body*" yn adran 90(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**ch**);".

**4**. Bydd Atodlen 3 yn dod yn Rhan I o Atodlen 3, ac yn union o flaen paragraff 1 mewnosodir y pennawd "RHAN I".

(a) 1988 p.40; Diwygiwyd adran 232(6) gan adran 14 o Ddeddf Addysg 1994 a pharagraff 6 o Atodlen 3 ac Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1998 (p. 30).

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1999/2817 (Cy.18).

(ch) 1992 p.13.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 2938 (W.279)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2002

*Made* *27th November 2002*

*Coming into force* *17th December 2002*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 218(1)(a) and (2) and 232(5) and (6) of the Education Reform Act 1988(**a**) and now vested in the National Assembly(**b**).

**Name and commencement**

**1**. These Regulations are called the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2002 and shall come into force on 17th December 2002.

**Amendment of Regulations**

**2**. The Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) Regulations 1999(**c**) shall be amended as follows.

**3**. In regulation 3(2) at the appropriate point in alphabetical order there shall be inserted the following definition:

> ""governing body" ("*corff llywodraethu*") in relation to a further education institution has the same meaning as in section 90(1) of the Further and Higher Education Act 1992(**d**);".

**4**. Schedule 3 shall become Part I of Schedule 3, and immediately before paragraph 1 there shall be inserted the heading "PART I".

(a) 1988 c.40; Section 232(6) was amended by section 14 of the Education Act 1994 and paragraph 6 of Schedule 3 and Schedule 4 to the Teaching and Higher Education Act 1998 (c. 30).

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1999/2817 (W.18).

(d) 1992 c.13.

**5**. Yn Rhan I o Atodlen 3 -

(a) ym mharagraff 1(1)(b) yn lle'r geiriau o "ym mharagraffau 2 i 9" i "Gyngor Addysg Taleithiau Guernsey" rhowch "ym mharagraffau 2 i 11, ac os yw'n berson a grybwyllir ym mharagraff 7, 8, 10 neu 11 fod y datganiad a gyflwynwyd gan y corff argymell, Cyngor Addysg Taleithiau Guernsey neu'r awdurdod argymell";

(b) ym mharagraff 1(2) yn lle "9" rhowch "11";

(c) ym mharagraff 1(3) yn lle "7 neu 9" rhowch "7, 9, 10 neu 11" bob tro y maent yn digwydd;

(ch) ar ôl paragraff 9 mewnosodwch y paragraffau canlynol -

"**10**.-(1) Mae'r awdurdod argymell wedi cyflwyno argymhelliad i'r Cynulliad y dylid dyfarnu statws athro cymwysedig i berson a datganiad -

(a) ei fod ar ddyddiad yr argymhelliad yn cael ei gyflogi fel athro mewn ysgol annibynnol; a

(b) ei fod wedi'i asesu gan yr awdurdod argymell fel un sy'n bodloni'r safonau penodedig; ac

(c)

(i) ei fod cyn 1 Ionawr 1974 wedi cael cymwysterau sy'n bodloni gofynion paragraffau 12, 13, 14, 15, 16, 17 neu 18 o Ran II o'r Atodlen hon, neu

(ii) ei fod cyn 1 Ionawr 1974 wedi cael gradd a roddwyd gan un o brifysgolion y Deyrnas Unedig neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol neu gan sefydliad estron, neu

(iii) ei fod cyn 1 Medi 1989 wedi cael gradd a roddwyd gan un o brifysgolion y Deyrnas Unedig neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol neu gan sefydliad estron mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, bioleg, botaneg, söoleg, ffisioleg, biocemeg neu ddaeareg; ac

(ch) ei fod wedi'i gyflogi fel athro mewn ysgol annibynnol cyn 1 Medi 1989.

(2) Yn y paragraff hwn -

(a) ystyr "awdurdod argymell" -

(i) yn achos athro nad yw'n bennaeth nac yn benadur, yw pennaeth neu benadur yr ysgol annibynnol y mae wedi'i gyflogi i addysgu ynddi; a

(ii) yn achos pennaeth neu benadur, yw cadeirydd corff llywodraethu'r ysgol, neu os nad oes un, perchennog yr ysgol;

**5**. In Part I of Schedule 3 -

(a) in paragraph 1(1)(b) for the words from "paragraphs 2 to 9" to "States of Guernsey Education Council" substitute "paragraphs 2 to 11, and if he or she is a person mentioned in paragraph 7, 8, 10 or 11 that the statement submitted by the recommending body, the States of Guernsey Education Council or the recommending authority";

(b) in paragraph 1(2) for "9" substitute "11";

(c) in paragraph 1(3) for "7 or 9" each time they occur substitute "7, 9, 10 or 11";

(d) after paragraph 9 insert the following paragraphs -

"**10**.-(1) The recommending authority has submitted to the Assembly a recommendation that a person should be awarded qualified teacher status and a statement that -

(a) on the date of the recommendation he or she is employed as a teacher in an independent school; and

(b) he or she has been assessed by the recommending authority as meeting the specified standards; and

(c)

(i) before 1st January 1974 he or she obtained qualifications meeting the requirements of paragraphs 12, 13, 14, 15, 16, 17 or 18 of Part II of this Schedule, or

(ii) before 1st January 1974 he or she obtained a degree granted by a United Kingdom university or by the Council for National Academic Awards or by a foreign institution, or

(iii) before 1st September 1989 he or she obtained a degree granted by a United Kingdom university or by the Council for National Academic Awards or by a foreign institution in mathematics, physics, chemistry, biology, botany, zoology, physiology, biochemistry or geology; and

(d) he or she was employed as a teacher in an independent school before 1st September 1989.

(2) In this paragraph -

(a) "recommending authority" means -

(i) in the case of a teacher who is not a head teacher or principal, the head teacher or principal of the independent school at which he or she is employed to teach, and

(ii) in the case of a head teacher or principal, the chairman of the governing body of the school, or if none the proprietor of the school;

(b) mae i "sefydliad estron" yr un ystyr ag ym mharagraff 2(2)(b); ac

(c) mae i "safonau penodedig" yr un ystyr ag ym mharagraff 9(2)(b).

**11**.-(1) Mae'r awdurdod argymell wedi cyflwyno argymhelliad i'r Cynulliad y dylid dyfarnu statws athro cymwysedig i berson a datganiad -

(a) ei fod ar ddyddiad yr argymhelliad yn cael ei gyflogi -

(i) fel athro mewn sefydliad addysg bellach; neu

(ii) fel hyfforddwr mewn ysgol yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 2;

(b) ei fod wedi'i asesu gan yr awdurdod argymell fel un sy'n bodloni'r safonau penodedig;

(c)

(i) ei fod cyn 1 Ionawr 1974 wedi cael cymwysterau sy'n bodloni gofynion paragraffau 12, 13, 14, 15, 16, 17 neu 18 o Ran II o'r Atodlen hon; neu

(ii) ei fod cyn 1 Ionawr 1974 wedi cael gradd a roddwyd gan un o brifysgolion y Deyrnas Unedig neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol neu gan sefydliad estron; neu

(iii) ei fod cyn 1 Medi 1989 wedi cael gradd a roddwyd gan un o brifysgolion y Deyrnas Unedig neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol neu gan sefydliad estron mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, bioleg, botaneg, söoleg, ffisioleg, biocemeg neu ddaeareg;

(ch) ei fod wedi'i gyflogi fel athro mewn sefydliad addysg bellach cyn 1 Medi 1989;

(d) ei fod yn dal Tystysgrif mewn Addysg neu Dystysgrif Addysg i Raddedigion; ac

(dd) ym marn yr awdurdod argymell, ei fod yn meddu ar ddigon o brofiad addysgu i allu addysgu disgyblion o 14 oed i 19 oed.

(2) Yn y paragraff hwn -

(a) ystyr "awdurdod argymell" -

(i) yn achos athro nad yw'n bennaeth nac yn benadur, yw pennaeth neu benadur y sefydliad addysg bellach y mae'r person yn cael ei gyflogi i addysgu ynddo; a

(ii) yn achos pennaeth neu benadur, yw cadeirydd y corff llywodraethu;

(b) "foreign" institution has the same meaning as in paragraph 2(2)(b); and

(c) "specified standards" has the same meaning as in paragraph 9(2)(b).

**11**.-(1) The recommending authority has submitted to the Assembly a recommendation that a person should be awarded qualified teacher status and a statement that -

(a) on the date of the recommendation he or she is employed as -

(i) a teacher in a further education institution; or

(ii) an instructor in a school in accordance with paragraph 3 of Schedule 2;

(b) he or she has been assessed by the recommending authority as meeting the specified standards;

(c)

(i) before 1st January 1974 he or she obtained qualifications meeting the requirements of paragraphs 12, 13, 14, 15, 16, 17 or 18 of Part II of this Schedule, or

(ii) before 1st January 1974 he or she obtained a degree granted by a United Kingdom university or by the Council for National Academic Awards or by a foreign institution; or

(iii) before 1st September 1989 he or she obtained a degree granted by a United Kingdom university or by the Council for National Academic Awards or by a foreign institution in mathematics, physics, chemistry, biology, botany, zoology, physiology, biochemistry or geology;

(d) he or she was employed as a teacher in a further education institution before 1st September 1989;

(e) he or she holds a Certificate in Education or a Post-graduate Certificate in Education; and

(f) in the opinion of the recommending authority, he or she has sufficient teaching experience to be able to teach pupils aged from 14 years to 19 years.

(2) In this paragraph -

(a) "recommending authority" means -

(i) in the case of a teacher who is not a head teacher or principal, the head teacher or principal of the further education institution at which the person is employed to teach; and

(ii) in the case of a head teacher or principal, the chairman of the governing body;

(b) mae i "sefydliad estron" yr un ystyr ag ym mharagraff 2(2)(b); ac

(c) mae i "safonau penodedig" yr un ystyr ag ym mharagraff 9(2)(b).".

**6**. Ar ôl Rhan I o Atodlen 3 mewnosodwch y Rhan ganlynol -

"RHAN II

**Celfyddyd**

**12**. Gofynion y paragraff hwn yw bod y person -

(a) wedi cael cyn 1 Ionawr 1965 gymhwyster -

(i) Diploma Prifysgol Llundain mewn Celfyddyd Cain (Ysgol Slade),

(ii) Diploma Aelodaeth Gyswllt o Goleg Brenhinol Celfyddyd (ARCA) neu Feistr Celfyddyd Coleg Brenhinol Celfyddyd (M Art (RCA)),

(iii) Diploma Dylunydd Coleg Brenhinol Celfyddyd (Des RCA) neu Dystysgrif Dylunydd Coleg Brenhinol Celfyddyd (Cert Des RCA) neu Feistr Dylunio Coleg Brenhinol Celfyddyd (M Des (RCA)),

(iv) Tystysgrif Ysgolion yr Academi Frenhinol a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'r cwrs yn yr Academi yn llwyddiannus, neu

(v) Diploma mewn Celfyddyd a Dylunio a ddyfarnwyd gan y Cyngor Cenedlaethol dros Ddiplomâu mewn Celfyddyd a Dylunio; neu

(b) wedi cael cymhwyster a bennir ym mharagraffau (i) i (v) o is-baragraff (a) ar 1 Ionawr 1965 neu ar ôl hynny, a chyn cael y cymhwyster hwnnw ei fod wedi sicrhau'r cymwysterau addysg gofynnol y mae eu hangen i gael mynediad i goleg addysg cydnabyddedig.

**Gwaith llaw**

**13**. Gofynion y paragraff hwn yw bod y person wedi cael Tystysgrif Athro mewn Gwaith Llaw Sefydliad Dinas ac Urddau Llundain, cyn 1 Ionawr 1961.

**Cerddoriaeth**

**14**. Gofynion y paragraff hwn yw bod y person -

(a) wedi cael cymhwyster -

(i) Diploma Graddedigion Ysgol Gerdd Birmingham (GBSM),

(ii) Diploma Graddedigion Ysgol Gerdd y Guildhall (GGSM),

(b) "foreign" institution has the same meaning as in paragraph 2(2)(b); and

(c) "specified standards" has the same meaning as in paragraph 9(2)(b).".

**6**. After Part I of Schedule 3 insert the following Part -

"PART II

**Art**

**12**. The requirements of this paragraph are that the person -

(a) obtained before 1st January 1965 the qualification of -

(i) London University Diploma in Fine Art (Slade School),

(ii) Diploma of Associateship of the Royal College of Art (ARCA) or Master of Art of the Royal College of Art (M Art (RCA)),

(iii) Diploma of Designer of the Royal College of Art (Des RCA) or Certificate of Designer of the Royal College of Art (Cert Des RCA) or Master of Design of the Royal College of Art (M Des (RCA)),

(iv) Certificate of the Royal Academy Schools awarded on the successful completion of the course at the Academy, or

(v) Diploma in Art and Design awarded by the National Council for Diplomas in Art and Design; or

(b) obtained a qualification specified in paragraphs (i) to (v) of sub-paragraph (a) on or after 1st January 1965, and before he or she had obtained that qualification he or she had attained the minimum education qualifications required for entrance to a recognised college of education.

**Handicraft**

**13.** The requirements of this paragraph are that the person obtained the City and Guilds of London Institute Teacher's Certificate in Handicraft before 1st January 1961.

**Music**

**14**. The requirements of this paragraph are that the person -

(a) obtained the qualification of -

(i) Birmingham School of Music's Graduate Diploma (GBSM),

(ii) Guildhall School of Music's Graduate Diploma (GGSM),

(iii) Diploma Graddedigion Coleg Cerdd Llundain (GLCM),

(iv) Diploma Graddedigion Ysgol Gerdd y Northern (GNSM),

(v) Gradd Meistr mewn Cerddoriaeth Coleg Brenhinol Cerddoriaeth (M Mus, RCM),

(vi) Diploma Cymrodoriaeth Coleg Brenhinol yr Organyddion (FRCO),

(vii) Diploma Graddedigion Coleg Cerdd y Royal Manchester (GRSM (Manchester)),

(viii) Diploma Graddedigion yr Ysgolion Brenhinol Cerdd (GRSM), neu

(ix) Diploma Graddedigion Coleg Cerdd Trinity (GTCL); neu

(b) wedi cael cyn 1 Ionawr 1964 gymhwyster -

(i) Diploma Ysgol Gerdd Birmingham a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs dwy-flynedd i hyfforddi athrawon ar gyfer Aelodaeth Gyswllt o Ysgol Gerdd Birmingham (ABSM) (TTD), neu Ddiploma Aelodaeth Gyswllt o Ysgol Gerdd Birmingham (ABSM) (Athro) ar gyfer unrhyw offeryn neu'r llais a hwnnw'n gymhwyster a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs amser-llawn o dair blynyedd neu gyfnod o astudiaeth ran-amser,

(ii) Tystysgrif Addysgu Liphook, Ysgol Ewrhythmeg Dalcroze Llundain, a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 1955 neu cyn hynny,

(iii) Tystysgrif Canolfan Hyfforddi Cymdeithas Dalcroze (Gorfforedig) a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs tair blynedd a ddaeth i ben ym 1954 neu 1955,

(iv) Tystysgrif Ysgol Ewrhythmeg Llundain Cymdeithas Dalcroze (Gorfforedig) a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs tair blynedd a ddaeth i ben ar 1 Ionawr 1956 neu ar ôl hynny,

(v) Diploma Addysg Gerddorol i Ysgolion Coleg a Chanolfan Gelfyddydau Dartington,

(vi) Aelodaeth Gyswllt o Ysgol Gerdd y Guildhall (AGSM) neu Drwyddedog Ysgol Gerdd y Guildhall (LGSM) gyda Diploma Athro arbennig (Cerddoriaeth) neu Ddiploma Athro AGSM neu LGSM (boed hynny ar gyfer offeryn neu fel arall) neu AGSM neu LGSM mewn Hyfforddiant Clywedol a Gwerthfawrogi Cerddoriaeth neu AGSM neu LGSM mewn Canu Dosbarth a Hyfforddi'r Llais,

(vii) Diploma mewn Cerddoriaeth Coleg Technoleg Huddersfield,

(iii) London College of Music's Graduate Diploma (GLCM),

(iv) Northern School of Music's Graduate Diploma (GNSM),

(v) Royal College of Music's Degree of Master in Music (M Mus, RCM),

(vi) Royal College of Organists' Fellowship Diploma (FRCO),

(vii) Royal Manchester College of Music's Graduate Diploma (GRSM (Manchester)),

(viii) Royal Schools of Music's Graduate Diploma (GRSM), or

(ix) Trinity College of Music's Graduate Diploma (GTCL); or

(b) obtained before 1st January 1964 the qualification of -

(i) Birmingham School of Music's Diploma awarded on the successful completion of the two year teacher training course for the Associateship of the Birmingham School of Music (ABSM) (TTD), or the Diploma of Associateship of the Birmingham School of Music (ABSM) (Teacher) of any instrument or the voice awarded on the successful completion of the three year full-time course or a period of part-time study,

(ii) The London School of Dalcroze Eurhythmics, Liphook's Teaching Certificate awarded on the successful completion of the three year course ending on or before 31st December 1955,

(iii) The Dalcroze Society (Incorporated) Training Centre's Certificate awarded on the successful completion of the three year course ending in 1954 or 1955,

(iv) The Dalcroze Society (Incorporated) London School of Eurhythmics's Certificate awarded on the successful completion of the three year course ending on or after 1st January 1956,

(v) Dartington College and Arts Centre's Diploma of Music Education for Schools,

(iv) Associateship of the Guildhall School of Music (AGSM) or Licentiate of the Guildhall School of Music (LGSM) with special Teacher's Diploma (Music) or AGSM or LGSM Teacher's Diploma (instrumental or otherwise) or AGSM or LGSM Aural Training and Musical Appreciation or AGSM or LGSM Class Singing and Voice Training,

(vii) Huddersfield College of Technology's Diploma in Music,

(viii) Diploma Athro Trwyddedog Coleg Cerdd Llundain (LLCM (TD)) mewn offeryn, neu'r llais neu (os y'i cafwyd erbyn 31 Rhagfyr 1960 fan bellaf) mewn Cerddoriaeth Ysgol neu LLCM mewn Cerddoriaeth Ysgol,

(ix) Diploma Cyswllt Addysg Gerddorol Ysgol Gerdd y Northern,

(x) Diploma Athro Trwyddedog yr Academi Frenhinol Gerdd (LRAM) (boed hynny ar gyfer offeryn neu fel arall) neu LRAM mewn Hyfforddiant Clywedol neu LRAM mewn Meithrin Llais a Chanu Dosbarth,

(xi) Diploma Athro Aelodaeth Gyswllt o'r Coleg Brenhinol Cerdd (ARCM) (boed hynny ar gyfer offeryn neu fel arall),

(xii) Aelodaeth Gyswllt o Goleg Brenhinol Cerdd y Royal Manchester (ARMCM) neu ARMCM (Cerddoriaeth Ysgol),

(xiii) Diploma Athro Trwyddedig Coleg Cerdd Trinity, Trwyddedog Coleg Trinity Llundain (LTCL) (boed hynny ar gyfer offeryn neu fel arall) neu Gymrodoriaeth, FTCL neu Ddiploma Addysg Gerddorol ar gyfer Ysgolion (LTCL Mus Ed),

(xiv) Diploma mewn Cerddoriaeth unrhyw un o Golegau Prifysgol Cymru, neu

(xv) Trwyddedog yr Ysgolion Brenhinol Cerdd (LRSM) neu Ddiploma Athro'r Ysgolion Brenhinol Cerdd (boed hynny ar gyfer offeryn neu fel arall);

a chyn cael y cymhwyster y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (a) neu (b) yr oedd wedi sicrhau'r cymwysterau addysg gofynnol yr oedd eu hangen ar gyfer mynediad i goleg addysg cydnabyddedig.

**Gwniadwaith a Phynciau Cartref**

**15**. Gofynion y paragraff hwn yw bod y person wedi cael cymhwyster -

(a) dwy dystysgrif mewn gwahanol bynciau gwniadwaith Sefydliad Dinas ac Urddau Llundain, y mae rhaid i un ohonynt fod yn Dystysgrif Athro,

(b) Tystysgrif Athrawon Technegol Sefydliad Dinas ac Urddau Llundain a ddyfarnwyd o 1955 i 1964 a dwy Dystysgrif y Sefydliad mewn gwahanol bynciau gwniadwaith, y mae rhaid i un ohonynt fod yn dystysgrif uwch, neu

(c) Tystysgrif Athro Pynciau Cartref (Addysg Bellach) Sefydliad Dinas ac Urddau Llundain a ddyfarnwyd o 1956 i 1970, ynghyd â'r canlynol -

(i) dwy Dystysgrif y Sefydliad mewn

(viii) Licentiate of the London College of Music Teacher's Diploma (LLCM (TD)) in an instrument, or the voice or (if obtained not later than 31st December 1960) in School Music or LLCM in School Music,

(ix) Northern School of Music's Associate Diploma of Music Education,

(x) Licentiate of the Royal Academy of Music (LRAM) Teacher's Diploma (instrumental or otherwise) or LRAM Aural Training or LRAM Voice Culture and Class Singing,

(xi) Associateship of the Royal College of Music (ARCM) Teacher's Diploma (instrumental or otherwise),

(xii) Associateship of the Royal Manchester College of Music (ARMCM) or ARMCM (School Music),

(xiii) Trinity College of Music's Licentiate Teacher's Diploma, Licentiate of Trinity College London (LTCL) (instrumental or otherwise) or Fellowship, FTCL or Diploma of Music Education for Schools (LTCL Mus Ed),

(xiv) The Diploma in Music of any College of the University of Wales, or

(xv) Licentiate of the Royal Schools of Music (LRSM) or Royal Schools of Music's Teacher's Diploma (instrumental or otherwise);

and before he or she had obtained the qualification referred to in sub-paragraph (a) or (b) he or she had attained the minimum educational qualifications required for entrance to a recognised college of education.

**Needlework and Domestic Subjects**

**15**. The requirements of this paragraph are that the person obtained the qualification of -

(a) two certificates in different needlecraft subjects of the City and Guilds of London Institute, one of which must be a Teacher's Certificate,

(b) Technical Teachers' Certificate of the City and Guilds of London Institute awarded from 1955 to 1964 and two Certificates of the Institute in different needlecraft subjects, one of which must be an advanced certificate, or

(c) Domestic Subjects (Further Education) Teacher's Certificate of the City and Guilds of London Institute awarded from 1956 to 1970, together with -

(i) two Certificates of the Institute in

gwahanol bynciau gwniadwaith y mae rhaid i un ohonynt fod yn dystysgrif uwch, neu

(ii) Tystysgrif y Sefydliad mewn Coginio Cartref Uwch a Thystysgrif y Sefydliad mewn Gwyddor Tŷ neu Reoli Cartref.

**Pynciau Gwyddonol**

**16**. Gofynion y paragraff hwn yw bod y person wedi cael cymhwyster -

(a) Aelodaeth Gyswllt o Goleg Brenhinol Gwyddoniaeth (Llundain),

(b) Aelodaeth neu Aelodaeth Gysylltiol y Sefydliad Ffiseg gan gynnwys cymhwyster Aelodaeth Gyswllt neu Raddedig y Sefydliad a gafwyd cyn 1 Mawrth 1971,

(c) Aelodaeth Gyswllt neu Raddedig Sefydliad Brenhinol Cemeg, neu

(ch) Aelodaeth o'r Sefydliad Bioleg.

**Lleferydd a Drama**

**17**. Gofynion y paragraff hwn yw bod y person wedi cael cymhwyster -

(a) Diploma Addysgu a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs tair blynedd yn Ysgol Ganolog Hyfforddiant Lleferydd a Chelfyddyd Drama (Ysgol Ganolog Lleferydd a Drama wedi hynny),

(b) Diploma Addysgu mewn Lleferydd a Drama a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs tair blynedd yn yr Academi Frenhinol Gerdd,

(c) Diploma Addysgu mewn Lleferydd a Drama a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs tair blynedd yng Ngholeg Newydd Lleferydd a Drama,

(ch) Diploma Athro Aelodaeth Gyswllt o Ysgol Cerdd a Drama'r Guildhall (AGSM) mewn Lleferydd a Drama a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs tair blynedd yn Ysgol Cerddoriaeth a Drama'r Guildhall cyn 1 Ionawr 1960,

(d) Diploma a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs tair blynedd mewn Lleferydd a Drama a gynhaliwyd gan Goleg Hyfforddiant Lleferydd a Drama Rose Bruford (Coleg Lleferydd a Drama Rose Bruford wedi hynny),

(dd) Tystysgrif Athro a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs hyfforddiant amser-llawn o dair blynedd mewn Lleferydd a Drama a gynhaliwyd gan Ysgol Gerdd y Northern tan 1968,

different needlecraft subjects, one of which must be an advanced certificate, or

(ii) the Institute's Certificate in Advanced Domestic Cookery and the Institute's Certificate in Housecraft or Home Management.

**Science Subjects**

**16**. The requirements of this paragraph are that the person obtained the qualification of -

(a) Associateship of the Royal College of Science (London),

(b) Membership or Associate Membership of the Institute of Physics including Associateship or Graduateship of the Institute obtained before 1st March 1971,

(c) Associateship or Graduateship of the Royal Institute of Chemistry, or

(d) Membership of the Institute of Biology.

**Speech and Drama**

**17**. The requirements of this paragraph are that the person obtained the qualification of -

(a) Teaching Diploma awarded on successful completion of the three year course at the Central School of Speech Training and Dramatic Art (later the Central School of Speech and Drama),

(b) Teaching Diploma in Speech and Drama awarded on successful completion of the three year course at the Royal Academy of Music,

(c) Teaching Diploma in Speech and Drama awarded on successful completion of the three year course at the New College of Speech and Drama,

(d) Associateship of the Guildhall School of Music and Drama (AGSM) Teacher's Diploma in Speech and Drama awarded on successful completion of the three year course at the Guildhall School of Music and Drama before 1st January 1960,

(e) Diploma awarded on successful completion of the three year course in Speech and Drama conducted by the Rose Bruford Training College of Speech and Drama (later Rose Bruford College of Speech and Drama),

(f) Teacher's Certificate awarded on successful completion of the three year full-time course of training in Speech and Drama conducted by the Northern School of Music until 1968,

(e) Diploma a ddyfarnwyd ym 1969 ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs hyfforddiant amser-llawn o dair blynedd ar gyfer athrawon Lleferydd a Drama yng Ngholeg Celfyddyd a Dylunio Manceinion, neu

(f) Diploma a ddyfarnwyd o 1970 ymlaen ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs hyfforddiant amser-llawn o dair blynedd ar gyfer athrawon Lleferydd a Drama ym Mholytechnig Manceinion,

a chyn cael cymhwyster y cyfeirir ato yn is-baragraffau (a) i (f) ei fod wedi sicrhau'r cymwysterau addysg gofynnol yr oedd eu hangen ar gyfer mynediad i goleg addysg cydnabyddedig.

(g) Diploma awarded in 1969 on the successful completion of the three year full-time course of training for teachers of Speech and Drama at the Manchester College of Art and Design, or

(h) Diploma awarded from 1970 on the successful completion of the three year full-time course of training for teachers of Speech and Drama at Manchester Polytechnic,

and before he or she obtained a qualification referred to in sub-paragraphs (a) to (h) he or she had attained the minimum education qualifications required for entrance to a recognised college of education.

**Cymwysterau eraill**

**18.** Gofynion y paragraff hwn yw bod y person wedi cael cymhwyster -

(a) Diploma Cenedlaethol Uwch,

(b) Tystysgrif Genedlaethol Uwch,

(c) Diploma mewn Technoleg a ddyfarnwyd gan y Cyngor Cenedlaethol dros Ddyfarniadau Technolegol neu'r Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol, neu

(ch) Tystysgrif A Undeb neu Sefydliad Cenedlaethol Froebel a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau cwrs tair blynedd yn llwyddiannus.

**19.** Yn y Rhan hon ystyr "y cymwysterau addysg gofynnol y mae eu hangen i gael mynediad i goleg addysg cydnabyddedig" yw lleiafswm o bum cymhwyster lefel gyffredin y Dystysgrif Gyffredinol Addysg, neu gymhwyster cyfatebol.".

**Other qualifications**

**18**. The requirements of this paragraph are that the person obtained the qualification of -

(a) Higher National Diploma,

(b) Higher National Certificate,

(c) Diploma in Technology awarded by the National Council for Technological Awards or the Council for National Academic Awards, or

(d) National Froebel Union or Foundation's Certificate A awarded on successful completion of a three year course.

**19**. In this Part "the minimum educational qualifications required for entrance to a recognised college of education" means a minimum of five General Certificate of Education ordinary level qualifications, or the equivalent.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

27 Tachwedd 2002

27th November 2002

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 2938 (Cy.279)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 2938 (W.279)

## EDUCATION, WALES

The Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2002

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090590-3

9 780110 905907

**£2.50**

W169/12/02 ON